

CYFLWYNIAD

Ystyr hollti yw torri pren ar hyd y graen. Roedd yn ddull pwysig o dorri pren cyn dyfodiad llifiau effeithiol. Roedd yr offer traddodiadol ar gyfer hyn yn syml, rhyw fath o letem fel arfer a gordd bren ar gyfer darnau mwy. Câi rhodenni llai eu hollti â bilwg neu lafn tebyg. Mae hollti pren yn gyson yn broses grefftus iawn a dros y canrifoedd defnyddiwyd amryw o ddyfeisiadau cywrain i gyflymu cynhyrchiant.

Gwneir llawer o gynhyrchion allan o bren wedi'i hollti. Rhai enghreifftiau pwysig yw:

- Gwadnau clocsiâu allan o fedw neu wern
- Basgedi allan o sribedi tenau o dderw
- Cewyll i'r ardd allan o helyg neu gastanwydd melys
- Clwydi defaid allan o gyll, ynn neu helyg
- Erwydd casgenni allan o dderw
- Sbôcs olwynion allan o dderw
- Pegiau pebyll allan o ynn
- Ystyllod toeau allan o dderw neu binwydd
- Pegiau toi â gwellt allan o gyll
- Teils pren ar gyfer toeau allan o dderw

Er bod nifer fach o lawer o'r cynhyrchion hyn yn dal i gael eu gwneud, y farchnad bwysicaf heddiw yw ar gyfer deunydd ffensio.



Ffig 1: Hollti

Caiff ffensys pren hollt eu gwneud allan o dderw neu gastanwydd melys bob tro: yr unig rywogaethau a dyfir yn eang yng Nghymru sy'n wydn pan fyddant mewn cysylltiad â'r tir. Y mathau mwyaf cyffredin o ffensys hollt yw postyn a gwifren a phostyn a rheilen.

FFENSYS POSTYN A GWIFREN

Fel arfer defnyddir pyst 5'6" (165cm) ar gyfer ffensys postyn a gwifren. Caiff pedair o'r pyst hyn eu hollti allan o foncyff 8" (20cm) mewn diamedr. Gellir hollti mwy o byst allan o foncyffion mwy.

Mae'n bwysig cofio mai dim ond rhuddin y pren sy'n wydn. Mae gwynnin, y pren goleuach o dan y rhisgl, yn pydru'n gyflym. Dylai o leiaf ddwy ran o dair o groestoriad y postyn fod yn rhuddin. Os oes band llydan o wynnin o amgylch pren derw, ni ddylid ei ddefnyddio. Ychydig iawn o wynnin sydd ar gastanwydden felys a gellir defnyddio deunydd mor fach â 5" (12 cm). Gall castanwydd, yn enwedig rhai a dyfwyd mewn coedlannau, gynhyrchu'r deunydd yma mewn 15 mlynedd ar safleoedd ffrwythlon.

FFENSYS POSTYN A RHEILEN

Mae ffensys postyn a rheilen yn anoddach i'w codi, ac mae angen deunydd o ansawdd da iawn i gynhyrchu rheilenni 8" neu 12" a physt trymach i ddal y morteisi. Dim ond mewn coedlannau a reolir yn dda y mae'r math yma o ddeunydd yn debygol o dyfu.

Defnyddio gordd a lletem oedd y ffordd draddodiadol o hollti pyst, gan ddechrau un pen i'r boncyff gyda lletem denau a dilyn llinell yr hollt gyda lletemau mwy. Bydd boncyffion da yn gynhyrchu 3 postyn fesul troedfedd giwbig ond mae deunydd cnotiog a llawn ceinciau yn gynhyrchu llawer llai.

Y dyddiau hyn, mae holltwyr hydrolig yn cyflymu'r broses ond mae angen deunydd o ansawdd da ar eu cyfer. Mae'n well llifio deunydd salach. Ar ôl ffurfio'r pig, caiff y pyst eu stacio i sychu am 6 mis (gweler ffigur 2) cyn eu defnyddio fel arfer, oherwydd credir fod hyn yn eu gwneud yn fwy gwydn. Un pwynt olaf i'w gofio yw taro styffylau i mewn i ruddin pren, nid y gwynnin, neu fe fyddant yn cwmpo allan wrth i'r pren bydru.



Ffig 2: Pyst hollt

Mae ffensys hollt i'w gweld yn amlach yng Nghymru gan fod y Parciau Cenedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Cyngor Cefn Gwlad wedi dweud mai dyna ddylid ei ddefnyddio ar safleoedd Tir Gofal. Mae'r defnydd o bren sy'n wydn yn naturiol yn debygol o gynyddu ymhellach wrth i gyrff cyhoeddus a thirfeddianwyr ddod i werthfawrogi eu cyfrifoldeb i waredu ffensys a wnaed o bren meddal wedi'i drin.